

JONES, JOHN OWEN (1857 - 1917), gweinidog ac athro gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, a llenor

Enw: John Owen Jones

Dyddiad geni: 1857

Dyddiad marw: 1917

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gweinidog ac athro gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, a llenor

Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 11 Ionawr 1857 yn Bryn-duntur, Bethesda (Arfon). Gadawodd Ysgol Frutanaidd Carneddi yn 12 oed, i weithio mewn ffatrïoedd gwll n ym Methesda a Chlwt-y-bont, ac wedyn yn chwarel Cae-braich-y-cafn. Derbyniwyd ef yn bregethwr yn 1879, ac wedi tymor yng Nghlynnog aeth i Goleg y Bala yn 1880. Yr oedd yn un o fyfyrwyr cyntaf (1884) Coleg y Gogledd, a graddiodd ym Mhrifysgol Llundain yn 1888, gydag anrhydedd mewn athroniaeth. Penodwyd ef i gymryd y dosbarthiadau elfennol yng Ngholeg y Bala; a phan wnaethpwyd y dosbarthiadau hynny yn 'Adran' ar wahân (1891), rhoddwyd eu gofal ar [E. Wynne Parry](#) (gweler dan [Parry, Griffith](#)) ac yntau; pan fu farw [Parry](#) (1897) daeth yn bennaeth arni. Parhaodd yn ei swydd hyd 1915, pan benderfynwyd diddymu'r adran, er mawr siom iddo. Ymneilltuodd i Gaernarfon; yn 1916 bu'n athro yn yr ysgol sir yno; bu farw 6 Mawrth 1917, a chladdwyd yng Nghaeathro.

Ei brif nodwedd oedd gweithgarwch dygn. Yr oedd yn athro da a llwyddiannus, ond yn ddisgyblwr llym na allai oddef ffyliaid. Ac yr oedd yn rhy ddidderbynwyneb i blesio gw r mawr ei gyfundeb, fel na chafodd unrhyw swydd ynddo - dymunodd yn ofer, fwy nag unwaith, am gadair yng Ngholeg y Bala. Pregethai'n sylweddol, ond yma eto nid yn boblogaidd. Ceidwadol oedd ei ddiwinyddiaeth, a gellir amau ai mewn athroniaeth yr oedd ei gryfder, ar waethaf ei radd ynddi. Yn hytrach, mewn ieithoedd y rhagorai, ac yr oedd yn Lladinwr cadarn; gadawodd E. V. Arnold fwy o'i ôl arno ym Mangor na [Henry Jones](#), a bu ei gyfeillgarwch agos â [Hugh Williams](#) yn ateg i hyn. Sgrifennodd lawer i'r cyfnodolion; cyhoeddodd esboniadau ar efengylau Luc a loan, ac ar epistolau loan. Yn *Cymru (O.M.E.)*, 1894-6, cyhoeddodd gyfieithiadau o'r prif ffynonellau Lladin ar hanes bore Prydain, a chyhoeddwyd y rhain yn llyfr, *O Lygad y Ffynnon*, yn 1899. Yn 1905, cyhoeddodd gyfieithiad (*Dilyn Crist*) o Thomas à Kempis, a aeth i ail argr. yn 1907; ac yr oedd wedi bod yn cyfieithu *Cyffesion* Awstin, o bryd i bryd, yn *Y Drysorfa*, gan fwriadu cyhoeddi'r gwaith yn llyfr.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

John Pritchard, *Rhamant Bywyd Athro, sef Hanes gyrfa y Parch. John Owen Jones* (Bala 1927), 1927

adnabyddiaeth bersonol

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [101459235](#)

Wikidata: [Q20733596](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.